Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2022 – 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cynnwys

Beth yw craffu? 3

Craffu ar waith 3

Sut mae craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych? 4

Y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu 5

Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc ar gyfer craffu 6

Gwaith craffu yn ystod 2022/23 7

Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2022/23 8

Galw penderfyniadau'r Cabinet i mewn 11

Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu 13

Pwyllgor Craffu Cymunedau 15

Pwyllgor Craffu Partneriaethau 18

Pwyllgor Craffu Perfformiad 21

Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 25

Ceisiadau Craffu gan drigolion 28

Sut all trigolion gymryd rhan yn y broses graffu? 28

Ffurflen gais craffu 31

## Beth yw craffu?

Mae craffu'n rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor. Mae llawer o benderfyniadau pwysig y Cyngor yn cael eu gwneud gan y Cabinet, sef grŵp o naw cynghorydd y mae'r Cyngor Sir wedi rhoi ei bwerau iddynt er mwyn dod i benderfyniadau ynghylch polisïau a gweithdrefnau ar ei ran.

Daw'r term 'scrutiny' yn Saesneg o'r gair Lladin 'scrutinium/scrutari' sy'n golygu 'i chwilio'. Yng nghyd-destun llywodraeth leol, rôl Craffu yw ymchwilio ac archwilio polisïau a phenderfyniadau, i asesu a ellid eu gwella neu eu cryfhau i ddarparu gwell gwasanaethau i drigolion ac ymwelwyr â Sir Ddinbych. Cyfeirir at Graffu yn aml fel 'cyfaill beirniadol' y Cyngor, a'i bwrpas yw darparu beirniadaeth adeiladol er mwyn ceisio gwella gwasanaethau'n barhaus, sicrhau gwell penderfyniadau a gwireddu gwell canlyniadau.

Ni all Pwyllgorau Craffu wneud penderfyniadau, ond gallant ddylanwadu ar bolisïau, adolygu penderfyniadau a wneir gan y Cabinet a Swyddogion, gwneud argymhellion, ac archwilio ystod o bynciau sy'n effeithio ar drigolion, busnesau lleol ac ymwelwyr â'r sir.

## Craffu ar waith

Dylai craffu weithio mewn ffordd ddiduedd bob amser. Ni ddylai gwleidyddiaeth ddylanwadu arno, dylai ei ffocws fod ar wella bywydau trigolion ac ar sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer ardal y sir.

Mae gan Bwyllgorau Craffu rôl weithgar i'w chwarae er mwyn datblygu polisïau ac adolygu perfformiad. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i ddal y Cabinet ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am y penderfyniadau maent yn eu gwneud.

Os yw Pwyllgor Craffu yn credu y dylid edrych yn fanylach ar fater cyn rhoi penderfyniad ar waith, gall ofyn i'r mater gael ei adolygu dan y weithdrefn "Galw i Mewn" a fydd yn galluogi Pwyllgorau Craffu i ffurfio cynigion amgen.

## Sut mae craffu'n gweithio yn Sir Ddinbych?

Mae craffu'n gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i arweinyddiaeth y Cyngor, gan gymell gwelliant nid yn unig i wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ond i wasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr ardal drwy alluogi i bryderon y cyhoedd gael eu clywed.

Cyflawnir gwaith craffu'r Cyngor gan dri Phwyllgor Craffu thematig, trawsbynciol, sy'n cwrdd oddeutu pob 7 wythnos ac maent yn cynnwys 11 aelod etholedig o bob plaid / grŵp gwleidyddol ar y Cyngor.

Y tri phwyllgor yn Sir Ddinbych yw:

- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgor Craffu Partneriaethau
- Pwyllgor Craffu Perfformiad

Wrth astudio materion addysg, mae cynrychiolwyr a benodir gan yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig, ynghyd â chynrychiolwyr a etholwyd gan riant-lywodraethwyr, yn gwasanaethu ar y pwyllgorau hefyd. Mae gan y cynrychiolwyr hyn hawliau pleidleisio llawn wrth ddelio â materion yn ymwneud ag addysg.  Ar hyn o bryd, mae dwy o'r tair swydd ar gyfer cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr ar bwyllgorau Craffu yn wag. Os ydych yn rhiant-lywodraethwr yn un o ysgolion uwchradd neu arbennig y Cyngor, ac y byddai gennych ddiddordeb mewn cynrychioli'ch sector ar Bwyllgor Craffu, cysylltwch â ni (ceir manylion yn yr adran 'Sut all trigolion gymryd rhan yn y broses Graffu' tua diwedd yr adroddiad hwn).  Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

## Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn gwasanaethu ar Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu'r Cyngor ynghyd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Grŵp yn gweithredu fel grŵp cydlynol ar gyfer gwaith y pwyllgorau. Mae ceisiadau am eitemau i'w hystyried gan bwyllgor craffu, boed hynny gan gynghorwyr sir, swyddogion y Cyngor, trigolion, busnesau, sefydliadau / gwasanaethau cyhoeddus eraill neu'r cyhoedd, yn cael eu harchwilio gan y Grŵp hwn i bennu a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Craffu, neu a fyddent yn elwa o gael eu hystyried gan fforwm neu grŵp arall. Mae'r eglurhad ar y prawf PAPER ar y dudalen nesaf yn dangos y meini prawf a'r broses ar gyfer penderfynu a yw pwnc yn un addas ar gyfer craffu.

Yn ystod 2022/23 cafodd cyfanswm o 34 o geisiadau am eitemau i gael eu craffu eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. O'r 34 cais hwn cafodd:

- 21 eu cyflwyno gan gynghorwyr sir
- 11 gan swyddogion
- 1 gan gynrychiolydd Addysg Cyfetholedig.
- Atgyfeiriwyd 1 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn sicrhau bod rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn gytbwys ac nad yw'r pynciau'n cael eu dyblygu. Mae hefyd yn cefnogi a chryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor drwy nodi'r arfer orau, hyfforddiant neu gyfleoedd datblygu ar gyfer aelodau'r pwyllgor craffu a rhoi cymorth i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i arferion craffu.

## Y broses ar gyfer penderfynu ar addasrwydd pwnc ar gyfer craffu

### Cam un: ystyried y cais

Derbyn ffurflen gynnig neu gais ac ystyried yn ofalus y rhesymau dros y cais.

### Cam dau: a yw'r mater dan sylw yn cyd-fynd â'r prawf PAPER?

- Lles y cyhoedd: a yw'r mater yn destun pryder i drigolion?
- Y gallu i gael effaith: a all Craffu ddylanwadu ar bethau a'u newid?
- Perfformiad: a yw hwn yn faes neu wasanaeth sy'n tangyflawni?
- Maint: a yw hwn yn effeithio ar nifer fawr o drigolion neu ardal ddaearyddol eang?
- Dyblygu: a oes unrhyw un arall yn edrych ar y mater hwn?

**Os ddim**, ni fydd angen i bwyllgor craffu gymryd unrhyw gamau pellach a bydd y cais yn cael ei atgyfeirio i rywle arall, neu gofynnir am wybodaeth a rennir gyda'r unigolyn neu'r sefydliad a gyflwynodd y cais.

**Os oes:**

**Cam tri: asesu a chynllunio** (bydd hyn yn cael ei wneud gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu)

- Penderfynu pa ganlyniadau a ddymunir
- Penderfynu ar gwmpas a graddau'r gwaith craffu sydd angen a'r dull mwyaf priodol i'w gyflawni (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp tasg a gorffen, neu aelod cyswllt ac ati)
- Os dewisir y llwybr tasg a gorffen, pennu'r amserlen ar gyfer unrhyw ymchwiliad, pwy fydd yn gysylltiedig, gofynion ymchwil, cyngor arbenigol a'r tystion fydd eu hangen, trefniadau adrodd ac ati.

## Gwaith craffu yn ystod 2022/23

Roedd 24 Mai 2022 yn nodi blwyddyn ddinesig newydd a thymor Cyngor newydd i Gyngor Sir Ddinbych, a oedd yn croesawu dychweliad 25 o gyn Gynghorwyr Sir ynghyd ag ychwanegu 23 o aelodau newydd eu hethol.

Yn ystod y flwyddyn, yn raddol symudodd Gwasanaethau’r Cyngor allan o’r mesurau adfer Covid a oedd ar waith yn ystod 2021/22 a dechrau dychwelyd at ‘fusnes fel arfer’, er bod rhai gwasanaethau wedi addasu i ffyrdd newydd o weithio.

Cafodd cyfarfodydd pwyllgor, gan gynnwys cyfarfodydd Pwyllgorau craffu, eu cynnal ar ffurf ‘cyfarfodydd hybrid’, gan roi’r dewis i aelodau pwyllgorau fynychu’r cyfarfod yn bersonol yn y lleoliad dynodedig, neu o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda. Mae holl gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu bellach yn cael eu gweddarlledu’n fyw ar wefan y Cyngor, ac mae recordiad o’r gweddarllediad ar gael ar y wefan ar ôl pob cyfarfod.

## Craffu a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ystod 2022/23

Cytunwyd ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor 'Y Sir Ddinbych a Garem' a'i flaenoriaethau ar gyfer 2022 – 2027 ym mis Hydref 2022, ac mae'r Cynllun yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni er budd trigolion a chymunedau lleol dros y pum mlynedd nesaf. Rhestrir y Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer tymor y Cyngor 2022 - 2027 isod. O dan bob pennawd mae enghreifftiau o'r mathau o gamau gweithredu a fydd yn helpu i gyflawni pob blaenoriaeth:

1. **Sir Ddinbych â thai o safon sy'n diwallu anghenion pobl:** sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion.
   - Sicrhau bod pobl yn gallu cael tai o ansawdd sy'n diwallu eu hanghenion.
   - Helpu pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.
   - Gweithio i atal digartrefedd.

**2. Sir Ddinbych ffyniannus**

- Cefnogi twf economaidd.
- Datblygu cynllun i dyfu busnesau Sir Ddinbych yn y dyfodol.
- Darparu cyngor a chefnogaeth i fusnesau dyfu a helpu cymunedau lleol i ffynnu.

**3. Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar**

- Darparu gofal cymdeithasol o safon uchel.
- Cefnogi pobl o bob oed i fyw'n dda a bod yn ddiogel.
- Helpu pobl i fyw'n annibynnol gan ddarparu cefnogaeth yn ôl yr angen.

**4. Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu**

- Cefnogi rhieni a phant ifanc yng nghamau cynnar eu datblygiad.
- Sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd teg i ddysgu.
- Darparu adeiladau a chyfleusterau o safon sy'n cefnogi dysgu a chymunedau llewyrchus.
- Cefnogi pobl i ddysgu sgiliau newydd, gwirfoddoli a dod o hyd i swyddi da.

**5. Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well**

- Cynnal rhwydwaith ffyrdd o ansawdd a galluogi pobl i gael mynediad at addysg, cyflogaeth, gwasanaethau a gweithgareddau.
- Cefnogi cymunedau gyda gwell sgiliau a rhwydweithiau digidol.
- Gweithio i gefnogi lles personol a chymunedol.
- Cefnogi ein hisadeiledd gwyrdd.

**6. Sir Ddinbych mwy gwyrdd**

- Dod yn sefydliad ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030.
- Gofalu am yr amgylchedd naturiol a'i wella.
- Gweithio gyda chymunedau i ymdopi ag effeithiau newid hinsawdd a'u lleihau.
- Gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff.

**7. Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal**

- Gweithio i fynd i'r afael ag annhegwch a thlodi mae ein cymunedau'n ei wynebu.
- Sicrhau bod pawb yn cael gwasanaeth o'r un safon i gefnogi eu lles.
- Hyrwyddo a dathlu amrywiaeth yn ein cymunedau.

**8. Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

- Sicrhau bod pawb yn gallu cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol ar bob cam yn eu bywydau.
- Cefnogi defnyddio Cymraeg yn ehangach a dathlu diwylliant Cymru.
- Datblygu strategaeth i hyrwyddo cyfoeth Sir Ddinbych o ddiwylliant, treftadaeth ac asedau naturiol.

**9. Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda**

- Sefydlu diwylliant cadarnhaol o uchelgais, tryloywder a gwelliant parhaus.
- Datblygu perthynas agos llawn ymddiriedaeth rhwng ein staff, aelodau etholedig a'n cymunedau.

- Sicrhau bod y Cyngor yn cael ei redeg yn dda ac yn rhoi gwerth da am arian.
- Sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn gyflogwr da ac yn lle gwych i weithio.

Mae’r Cyngor yn ffodus bod ei strwythur pwyllgorau craffu thematig yn cynnig digon o hyblygrwydd i alluogi unrhyw un o’r pwyllgorau i archwilio agweddau amrywiol ar gynnydd yr Awdurdod o ran cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol.

## Galw penderfyniadau’r Cabinet i mewn

Cafodd Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor ei rhoi ar waith ddwywaith yn ystod 2022/23, roedd y ddwy alwad i mewn ar gyfer penderfyniadau a wnaethpwyd gan Gabinet y Cyngor.

### 1. Argymhelliad y Grŵp Gosod Ffioedd Rhanbarthol

Ar 13 Rhagfyr 2022 bu'r Cabinet yn trafod adroddiad yn manylu ar argymhellion Grŵp Ffioedd Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2023/24, mewn perthynas â ffioedd cartrefi preswyl a nyrsio. Roedd yr adroddiad yn egluro sut y cyfrifwyd y ffioedd a daeth i ben gydag argymhelliad ar sut y dylai Cyngor Sir Ddinbych ddefnyddio'r gwaith hwn i lywio'r broses o bennu ffioedd lleol. Penderfynodd y Cabinet dderbyn yr holl argymhellion o’r Grŵp Ffioedd fel y nodir o fewn yr adroddiad.

Derbyniwyd penderfyniad i’w alw i mewn ar 19 Rhagfyr 2022. Gan nad oedd angen gweithredu’r penderfyniad hwn ar frys, cytunodd y sawl a oedd yn gwneud y penderfyniad (y Cabinet) a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau i hepgor y cyfnod o 5 diwrnod a nodir yn Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor i glywed yr adolygiad. Roedd hyn yn galluogi’r Pwyllgor Craffu Cymunedau i ystyried y sail ar gyfer galw i mewn ac adolygu’r dystiolaeth a oedd yn sail i benderfyniad y Cabinet a’i gyfarfod nesaf ar 19 Ionawr 2023.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo mewn perthynas â phenderfyniad y Cabinet, penderfynodd y Pwyllgor beidio â gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad ar 13 Rhagfyr 2022 i dderbyn argymhellion y Grŵp Ffioedd. Serch hynny, mewn ymateb i gais craffu newydd ar fater ‘Ymgysylltu â Fforwm Gofal Cymru a Darparwyr Gofal yn Sir Ddinbych’, mae’r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu wedi gofyn i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau archwilio’r cynnydd a wnaethpwyd i annog darparwyr gofal i ymgysylltu â’r Cyngor ar faterion yn ymwneud â darparu gofal a gosod ffioedd. Bydd y Pwyllgor yn archwilio’r agwedd hon yn ystod hydref 2023.

**2. Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin.**

Cafodd penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 25 Ebrill 2023 ynglŷn â'r broses ymgeisio a llunio rhestr fer, ynghyd ag argymhellion y Grŵp Partneriaeth Graidd ynghylch pa geisiadau i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'w cymeradwyo, ei alw i mewn ar 5 Mai gan aelodau'r Grŵp Annibynnol. Sail y galw i mewn oedd diffyg dealltwriaeth o'r broses ymgeisio ynghyd â diffyg ymgynghori ag aelodau etholedig drwy gydol y broses.

Adolygodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau benderfyniad y Cabinet ar 18 Mai 2023. Ar ddiwedd dadl helaeth, roedd y Pwyllgor yn fodlon, ar ôl ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad a'i atodiadau cysylltiedig, ynghyd â'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth, mewn perthynas â'r broses ymgeisio a llunio rhestr fer, ei fod yn argymell bod y Cabinet yn cadarnhau penderfyniad 25 Ebrill 2023, i'r graddau ei fod yn ymwneud â'r prosiectau a roddwyd ar restr fer y Grŵp Partneriaeth Craidd i'w cymeradwyo. Er ei fod yn fodlon i'r prosiectau symud ymlaen i gam nesaf y broses gymeradwyo, gofynnodd i'r Cabinet rannu'r canlynol â'r holl gynghorwyr sir:

(i) gwybodaeth am y casgliadau gwerthuso yn ymwneud â phob cais unigol a dderbyniwyd ar gyfer cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin;

(ii) gwybodaeth yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin;

(iii) y Cynllun Cyfathrebu yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

(iv) bod pob Grŵp Ardal Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw risgiau a nodwyd yn ymwneud â phrosiectau unigol ac am gynnydd o ran eu gallu i gyflawni wrth symud ymlaen; a

(v) bod aelodau Cabinet a swyddogion y Cyngor perthnasol yn cysylltu ag aelodau lleol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau dirprwyedig sydd eu hangen, fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Cabinet ar 25 Ebrill 2023.

**Canlyniadau cadarnhaol y broses graffu**

Un o brif amcanion y broses graffu yw ychwanegu gwerth a cheisio sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â Sir Ddinbych. Mae disgwyliad i Graffu ddangos tystiolaeth o'r buddion y mae wedi'i ychwanegu at y broses o wneud penderfyniadau a sut mae'r buddion hynny'n amlygu eu hunain mewn canlyniadau gwell i fusnesau a thrigolion y sir. Yn gyffredinol, mae'n anodd gan amlaf dangos tystiolaeth o fuddion o'r fath, ond amcan cyffredinol Craffu yw cefnogi gwell penderfyniadau sydd wedyn yn darparu gwell gwasanaethau.

Un penderfyniad o'r fath a oedd yn ganlyniad uniongyrchol i argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau oedd sefydlu rôl Swyddog Rheoli Rhostiroedd. Sefydlwyd y swydd hon yn 2020 yn dilyn Adolygiad y Pwyllgor o Dân Mynydd Llandysilio 2019. Cyflwynwyd adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2023 yn tynnu sylw at effaith gadarnhaol cael Swyddog Rhostir yn meithrin perthnasoedd da ac yn cydgysylltu gwaith aml-asiantaeth a budd-ddeiliaid mewn perthynas â chynlluniau ymateb i dân a rheoli cynefinoedd / llwyth tanwydd dros ardaloedd allweddol o Fryniau Clwyd, Mynydd Llandysilio a Rhostir Llandegla.

Roedd y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Prosiect Rhostiroedd Sir Ddinbych a chefnogi'r ymdrechion sydd ar y gweill i ehangu'r bartneriaeth bresennol â Chyfoeth Naturiol Cymru. Gofynnir hefyd i swyddogion y Bwrdd Partneriaeth Rhostiroedd rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chynghorwyr lleol yn rheolaidd ynglŷn ag unrhyw waith gweithredol neu benderfyniadau gan y Bwrdd, sy'n effeithio ar eu ward etholiadol.

Yn dilyn Grŵp Tasg a Gorffen blaenorol a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru/Welsh Water a chynrychiolwyr tirfeddianwyr, er mwyn sefydlu perthynas waith agosach â'r holl gyrff cyhoeddus a thirfeddianwyr unigol mewn ymdrech i addysgu am gyfrifoldebau perchnogion tir glannau afonydd i leihau'r perygl o lifogydd, gofynnwyd unwaith eto i'r Pwyllgor gefnogi'r cynnig i ailsefydlu gweithgor aml-asiantaeth tebyg i oruchwylio Datblygiad y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd.

Ystyrir bod sefydlu gweithgorau swyddogion aml-asiantaeth a gweithgorau aelodau yn ffordd ddefnyddiol o agor sianeli cyfathrebu, gan feithrin lefelau o gyd-ymddiriedaeth i gynorthwyo gwell perthnasoedd ac arferion gwaith a ddylai yn ei dro fod o fudd i drigolion a'r sefydliadau eu hunain.

## Pwyllgor Craffu Cymunedau





Y Cynghorydd  Huw Williams **(Cadeirydd)** Y Cynghorydd Karen Edwards **(Is–gadeirydd)**

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor

Mae'r Pwyllgor hwn yn archwilio materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau lleol a bywydau dyddiol y trigolion. Gall y rhain fod yn faterion o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor neu agweddau ar fywyd dyddiol y gall y Cyngor ddylanwadu arnynt. Bu'r Pwyllgor yn ystyried amrywiaeth o bynciau Blaenoriaeth Corfforaethol yn ystod blwyddyn ddinesig 2022/2023.

**Sir Ddinbych Ffyniannus**

Parhaodd y Pwyllgor i fonitro'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy **Raglen Adfywio'r Rhyl** – blaenoriaeth ers blynyddoedd lawer oherwydd lefel yr amddifadedd yn y dref. Roedd swm sylweddol o fuddsoddiad wedi digwydd i adfywio'r Rhyl er budd busnesau, trigolion a thwristiaid.

Ystyriwyd y **Cynllun Arwyddion Twristiaeth Drafft ar gyfer Sir Ddinbych**, gyda'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd yr arwyddion twristiaeth brown nodedig ar ffyrdd a oedd yr un mor bwysig â chyfryngau cymdeithasol a chymhorthion llywio electronig i annog twristiaeth. Gofynnwyd am gyflwyno'r pwnc gerbron holl Grwpiau Ardal yr Aelodau

i’w trafod, er mwyn ymchwilio i sut y gallai’r holl ardaloedd, yn drefol a gwledig, elwa i’r eithaf ar yr effaith economaidd a’r buddion a ddaw drwy’r Cynllun Arwyddion Twristiaeth;

Arhoswyd gyda thwristiaeth ar gyfer yr eitem **Ail Gartrefi a Gosodiadau Gwyliau Tymor Byr,** gan fanylu ar y gofynion cynllunio presennol mewn perthynas ag ail gartrefi a gosodiadau gwyliau tymor byr, ynghyd â mesurau posibl megis trethiant a / neu drwyddedu y gellid eu cyflwyno yn y dyfodol ac archwiliwyd eu goblygiadau. Roedd y drafodaeth yn cynnwys yr effaith ar argaeledd tai lleol a’r angen i berchnogion ail gartrefi wneud cyfraniad teg ac effeithiol at y cymunedau y maent yn prynu tai ynddynt.

**Amgylchedd Mwy Gwyrdd**

Mae’r flaenoriaeth hon yn gweithio gyda chymunedau i ymdopi ag effeithiau newid hinsawdd a’u lleihau. Adolygodd y Pwyllgor **Gynlluniau Amddiffyn Arfordirol Arfaethedig Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn** – i ganfod gwerth a budd y cynlluniau rheoli risg llifogydd arfordirol posibl. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi symud y ddau gynllun ymlaen i adeiladu, yn amodol ar gymeradwyaeth ariannol ac argymhellodd y dylid mynd â'r cynlluniau i'r Grŵp Buddsoddi Strategol, y Cabinet a'r Cyngor yn olynol i'w cymeradwyo.

Fel rhan o fodd yr Awdurdod i atal a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth a mynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol, cyflwynodd y **Prosiect Dolydd Blodau Gwyll**t, sef cydweithrediad traws-wasanaeth i greu dolydd o darddiad lleol trefol ac ar gyrion trefi trwy gael trefn 'torri a chasglu' gwair ostyngedig. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru am yr ymgysylltu a’r cyhoeddusrwydd cynyddol gyda budd-ddeiliaid ar y Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt ac addawodd i roi ei gefnogaeth barhaus i’r Prosiect.

Cyflwynwyd diweddariad **Prosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff** i'r Pwyllgor gan amlygu'r gweithgareddau sydd i ddod i hwyluso'r newid i'r gwasanaeth gwastraff. Byddai'r gwasanaeth newydd yn dechrau gyda chyflwyno casgliad o Gynhyrchion Hylendid Amsugnol ym mis Medi 2023; byddai’r gwasanaeth ailgylchu ‘didoli o ymyl y ffordd’ yn dechrau ym mis Mawrth 2024 gyda’r model gwastraff gweddilliol yn cael ei roi ar waith yn ystod haf 2024. Bydd trefn gadarn o ran cyfathrebu ac ymgysylltu yn cynorthwyo’r gwaith o gyflwyno’r gwasanaeth newydd, fel bod yr holl breswylwyr yn ymwybodol ac yn deall y

newidiadau arfaethedig. Cymeradwyodd y Pwyllgor y gweithgareddau i'w cyflawni yn y dyfodol er mwyn bod yn barod a gofynnodd i'r Asesiad Effaith gael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

**Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar**

Rhoddodd **Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST)** gyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlygu materion yn ymwneud ag amseroedd ymateb ambiwlansys, gan gynnwys data ymateb brys amrywiol ar gyfer galwadau yn Sir Ddinbych. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar am y wybodaeth a ddarparwyd gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST), ac roedd yn cydnabod y mesurau sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn ymateb a rheoli galwadau brys yn effeithiol wrth symud ymlaen. Ar ôl ystyried y pwysau y mae WAST yn eu hwynebu ar hyn o bryd, argymhellodd y Pwyllgor bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd ac Economi yn galw trafodaeth rhwng uwch swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a WAST gyda'r bwriad o edrych ar opsiynau posibl i ymestyn cysylltiadau'r awdurdod lleol a Thrydydd Sector a allai helpu i gefnogi'r Gwasanaeth Ambiwlans i ganolbwyntio ei adnoddau ar ddelio â galwadau brys.

## Pwyllgor Craffu Partneriaethau





Y Cynghorydd  Joan Butterfield **(Cadeirydd)**                    Y Cynghorydd Peter Scott **(Is–gadeirydd)**

Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am archwilio effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor naill ai mewn cydweithrediad, neu mewn partneriaeth, â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus a sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn diwallu anghenion trigolion.

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor]

Er gwaethaf newidiadau mewn arweinyddiaeth wleidyddol a strwythurau rheoli ar draws y rhanbarth, parhaodd y gwaith ar ddatblygu a chyflawni trefniadau gweithio mewn partneriaeth ranbarthol ac isranbarthol.  Wrth i drefniadau gweithio mewn partneriaeth barhau i ddatblygu ac esblygu yn y cyfnod ôl-bandemig, parhaodd y Pwyllgor â'i waith yn archwilio effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir ar y cyd, neu mewn partneriaeth, â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, cwmnïau preifat a grwpiau gwirfoddol, gan wneud yn siŵr eu bod yn bodloni anghenion y trigolion.

Mae nifer a mathau'r gwasanaethau a ddarperir ar y cyd â darparwyr allanol yn amrywiol iawn, o ofal cymdeithasol i ddatblygu economaidd a gorfodi amgylcheddol i ddiogelwch cymunedol. Mae pob un o'r trefniadau partneriaeth hyn hefyd yn helpu i sicrhau y cyflawnir

pob un o’r themâu corfforaethol a fydd maes o law yn cyfrannu at wireddu Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Gyda’r bwriad o sicrhau bod yr economi leol a rhanbarthol yn addasu yn sgil aflonyddwch cymdeithasol, ariannol a gwleidyddol cenedlaethol a rhyngwladol gan barhau i ganolbwyntio ar adfywio a ffyniant yn y dyfodol, archwiliodd y Pwyllgor **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2021 /22** a thrafod gyda chynrychiolwyr y Bwrdd ei gyflawniadau hyd yma yn ogystal â'r heriau sydd o'n blaenau. Yn ymwybodol iawn o’r caledi economaidd a phersonol yr oedd yr argyfwng costau byw yn ei achosi i unigolion a theuluoedd ar draws y sir a’i effaith bosibl ar wasanaethau’r Cyngor, craffodd y Pwyllgor ar effeithiolrwydd gwaith ymyrraeth gynnar y **Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth Tai**, i gefnogi teuluoedd mewn argyfwng i aros yn eu cartrefi eu hunain a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r math hwn o waith ymyrraeth gynnar yn dibynnu'n helaeth ar roi trefniadau gwaith partneriaeth cryf mewn lle a’u cydgysylltu'n effeithiol rhwng sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Gall pwysau tai, cymdeithasol ac ariannol, ymhlith ffactorau eraill, arwain at broblemau iechyd meddwl, yn enwedig ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed a mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas. Mae'r Pwyllgor yn awyddus yn barhaus i sicrhau bod yr holl asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol i amddiffyn y trigolion mwyaf agored i niwed yn y sir. Fel rhan o’i waith i gael sicrwydd bod trigolion yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, fe archwiliodd **Adroddiad Blynyddol 2021/22 ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych**. Cafodd gyfarfod hefyd â chynrychiolwyr o’r Bwrdd Iechyd, yr Heddlu a Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol y Cyngor i archwilio **Trefniadau Gweithio mewn Partneriaeth mewn perthynas ag Iechyd Meddwl** gan ei fod am wneud yn siŵr bod yr holl asiantaethau hyn yn cydweithio’n effeithiol i nodi materion iechyd meddwl mor gynnar ag sy’n bosibl er mwyn sicrhau bod ymyrraeth a chefnogaeth briodol yn cael ei darparu’n amserol i unigolion bregus mewn argyfwng.

Mae gan Sir Ddinbych, yn debyg i lawer o ardaloedd eraill, boblogaeth sy'n heneiddio sy'n arwain at alw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol. Gyda’r bwriad o reoli’r galw hwn a chefnogi unigolion i barhau’n weithgar ac annibynnol cyhyd ag sy’n bosibl, mae iechyd, gofal cymdeithasol, tai a’r sector gwirfoddol yn cydweithio’n agos dan nawdd

Bwrdd **Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion unigol pobl.  Bu'r Pwyllgor hefyd yn archwilio gweithgareddau'r sefydliad hwn o ran cynllunio a datblygu gwasanaethau priodol yn ystod y flwyddyn.

Gan gydnabod pwysigrwydd cynyddol y sector gwirfoddol ynghyd â dibyniaeth y Cyngor ac awdurdodau cyhoeddus eraill ar fudiadau gwirfoddol i'w helpu i estyn allan at unigolion a chymunedau i'w helpu i adeiladu cymunedau cryf, bywiog, cynaliadwy ar hyd a lled y sir, bu'r Pwyllgor yn trafod gyda Phrif Swyddog **Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC)** y gwasanaethau a'r gefnogaeth a ddarperir gan fudiadau gwirfoddol cysylltiedig â DVSC yn Sir Ddinbych.  Mae DVSC yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i sefydliadau cymunedol ac unigolion gyda'r nod o'u grymuso i sefydlu, adeiladu a chynnal rhwydweithiau lleol a fydd yn annog cryfder cymunedol hirdymor ac yn hybu annibyniaeth.

Yn rhinwedd ei swydd fel pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer craffu ar faterion yn ymwneud â throsedd ac anhrefn, archwiliodd yr aelodau berfformiad a gweithgareddau **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych** trwy ystyried ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 a chanolbwyntiodd hefyd ar ei flaenoriaethau ar gyfer 2022/23. Mae troseddau amgylcheddol, megis baw cŵn, sbwriel, graffiti, tipio anghyfreithlon ac ati yn hyll ac yn difetha cymunedau lleol, gallant hefyd fod yn fygythiad i iechyd y cyhoedd. Mewn ymgais i wneud yn siŵr bod y contract, rhwng y Cyngor a'r cwmni a gomisiynwyd i gymryd camau gorfodi yn erbyn y rhai sy'n cyflawni troseddau amgylcheddol, yn gadarn ac yn darparu'r math o wasanaethau a oedd yn diwallu anghenion cymunedau lleol, cyfrannodd y Pwyllgor at ymgynghoriad ar amrywiadau i'r contract sydd ar waith i ddarparu patrolau **Gwasanaeth Gorfodi Amgylcheddol** ledled y sir.

Unwaith eto, fel yn ystod cyfnod y cynghorau blaenorol, mae'r Pwyllgor wedi parhau â'i raglen o gyfarfodydd rheolaidd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn gwireddu'r gwaith o gyflawni **Prosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych** a ddylai ddod i ben yn y pen draw gydag ysbyty a chanolbwynt iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i adeiladu'n bwrpasol  yn yr ardal.  Bydd y Pwyllgor yn parhau â'r gwaith hwn yn ystod y blynyddoedd i ddod.

## Pwyllgor Craffu Perfformiad





Y Cynghorydd  Hugh Irving **(Cadeirydd)**                                    Y Cynghorydd Gareth Sandilands **(Is–gadeirydd)**

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at [wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Perfformiad, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor]

Mae gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ran bwysig i'w chwarae i wneud yn siŵr fod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon i drigolion ac i gefnogi'r Cyngor i wireddu ei Gynllun Corfforaethol.  Mewn ffordd roedd 2022/23 yn flwyddyn o bontio i'r 'Pwyllgor' newydd i raddau helaeth, yn dilyn etholiadau awdurdod lleol.  Yn fetafforig, bu'n flwyddyn o drosglwyddo'r baton oddi wrth ei ragflaenydd, gan glymu pennau rhydd, a gosod seiliau cadarn i waith y Pwyllgor yn ystod tymor y Cyngor 2022/27 sydd i ddod.

Wrth gyflawni'r rôl hon, bu'r Pwyllgor yn monitro cyflawniad nifer o gynlluniau a strategaethau'r Cyngor yn rheolaidd.   Er enghraifft, **Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Tai a Digartrefedd**, a etifeddwyd gan y Cyngor blaenorol ond a nodwyd fel maes gwaith allweddol i'r Cyngor newydd yn ei ymgais i fynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd yn y sir. Daeth i ben â'r gwaith monitro ar gyflawni **Cynllun Corfforaethol 2017/22** ac yna cychwynnodd y trefniadau monitro ar gyfer **Cynllun Corfforaethol newydd 2022/27**. Trwy ganolbwyntio ar gynnydd y Cyngor i weithredu'r Cynllun ac ar ei berfformiad gyda'r camau cychwynnol o'i gyflawni bydd y Pwyllgor yn gallu nodi meysydd neu wasanaethau a allai haeddu craffu agosach wrth i amser fynd rhagddo.Law yn llaw â monitro cynnydd y Cyngor i gyflawni ei gynlluniau a'i strategaethau, mae'r Pwyllgor, ddwywaith y flwyddyn, yn

adolygu **Cofrestr Risg Gorfforaethol** yr Awdurdod. Mae'r Gofrestr hon yn cynnwys y risgiau lefel uchel sydd wedi'u nodi fel rhai sydd â'r potensial i amharu ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau hanfodol y Cyngor o ddydd i ddydd, yn ogystal â'i amcanion tymor canolig i hirdymor. Mae'r Gofrestr hefyd yn nodi'r mesurau a roddwyd ar waith i reoli'r risgiau hynny a sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn parhau i gael eu darparu yn ystod cyfnodau heriol. Trwy archwilio'r Gofrestr Risg, perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei Gynllun Corfforaethol ac wrth ymateb i gwynion preswylwyr a gyflwynwyd o dan **Weithdrefn Gwyno** '**Eich Llais**', gall y Pwyllgor ganolbwyntio ei waith ar gefnogi gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir ym mhob maes.

Mae cael gwybodaeth a gwasanaethau ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch i drigolion o fewn cyrraedd rhesymol i'r cymunedau lle maent yn byw yn hanfodol os yw'r Cyngor am wireddu ei uchelgais o gyflawni'r naw thema yn ei Gynllun Corfforaethol newydd. Yn flynyddol mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn archwilio **Safonau a Pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell** i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r gofynion cenedlaethol a nodir yn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, ond yn bwysicach fyth i drigolion lleol, y cynnydd a wneir yn Sir Ddinbych wrth gyflwyno arloesiadau sy'n anelu at drawsnewid llyfrgelloedd o'r cysyniad traddodiadol eu bod yn sefydliadau benthyca llyfrau yn unig i fod yn 'fannau hapus' mwy cyfannol sy'n cefnogi cryfder cymunedol a lles unigolion.

Roedd grymuso cryfder cymunedol a gwella lles trigolion trwy weithio mewn partneriaeth â Chynghorau amrywiol a sefydliadau allanol yn nodweddion allweddol mewn nifer o feysydd a archwiliwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Craffwyd yr agweddau hyn wrth ystyried **Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2021/22**, **Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Gofal Cymdeithasol**, a'r posibilrwydd o ehangu gwasanaethau gofal dydd yn **Hafan Deg yn y Rhyl.**Rhoddodd archwiliad o berfformiad **Gofal Iechyd Cefndy** dros y blynyddoedd diwethaf gipolwg i'r Pwyllgor ar weithrediadau'r sefydliad yn ystod ac ar ôl Covid a Brexit, sydd ill dau wedi amharu ar gadwyni cyflenwi byd-eang, ac wedi effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth a datblygu busnes. Roedd yn galonogol deall bod y cyflogwr sefydledig a

gwerthfawr hwn yn addasu ac yn esblygu i ateb y galw am ei gynnyrch nawr ac yn y dyfodol .

Yn ogystal â monitro perfformiad y Cyngor yn rheolaidd o ran cyflawni strategaethau a chynlluniau gweithredu tymor canolig i hirdymor, mae angen i'r Pwyllgorau Craffu hefyd allu ymateb i'r presennol, gan gynnwys gwneud yn siŵr nad yw diffygion neu ddiofalwch a geir mewn mannau eraill yn debygol o ddigwydd yn Sir Ddinbych.  Yn sgil marwolaeth drasig bachgen 8 oed o ganlyniad i amlygiad hirfaith i lwydni mewn fflat cymdeithas dai yn Lloegr, archwiliodd yr aelodau weithdrefnau'r Cyngor ei hun ar gyfer delio â **Llwydni ac Anwedd yn Stoc Tai Cyngor Sir Ddinbych.**  Trwy graffu ar y gwaith hwn cafodd y Pwyllgor ei sicrhau bod gan y Cyngor systemau a phrosesau cadarn ar waith i sicrhau bod adroddiadau am leithder, llwydni ac anwedd yn cael eu trin yn brydlon ac yn effeithiol.

O dan strwythur pwyllgorau craffu thematig y Cyngor, Pwyllgor Craffu Perfformiad yw'r prif bwyllgor sy'n ymdrin â chraffu ar bynciau sy'n ymwneud ag addysg, gan eu bod yn effeithio'n gyffredinol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad, boed hynny ar berfformiad unigol neu berfformiad ysgol neu'r awdurdod addysg lleol ar y cyd a'r sefydliadau allanol hynny sy'n cynorthwyo i ddarparu addysg.

Mae effaith Covid ar addysg disgyblion wedi'i adrodd yn eang a'i ddogfennu'n dda.  Yn absenoldeb data canlyniadau arholiadau, bu bron yn amhosibl i bwyllgorau craffu awdurdodau lleol fonitro perfformiad addysgol cyfunol yn effeithiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.  Felly, mae ffocws craffu mewn perthynas ag addysg yn ystod 2021/22 wedi bod ar gynlluniau'r Gwasanaeth Addysg a'i barodrwydd ar gyfer y newidiadau sydd i ddod. Gan ganolbwyntio ar y newidiadau hynny mae'r Pwyllgor wedi edrych yn ystod y flwyddyn ar waith y Gwasanaeth a GwE (y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol) i gefnogi ysgolion gyda gweithrediad y **Cwricwlwm newydd i Gymru.**  Mae hefyd wedi edrych ar y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Addysg o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol sy'n ymwneud ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol** fel y nodir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, ac wedi ystyried y goblygiadau posibl i ysgolion a disgyblion y sir o gasgliadau Llywodraeth Cymru yn dilyn ei ymgynghoriad ar **Gategoreiddio Ysgolion yn ôl Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg.**

Er gwaethaf y cyfyngiadau a achosir gan ddiffyg data perfformiad arholiadau ysgolion i’r Pwyllgor eu harchwilio, mae adroddiadau Estyn (y rheolydd allanol ar gyfer ysgolion a materion addysg) ar ysgolion unigol ar gael o hyd, ac maent yn ffon fesur bwysig o berfformiad ysgolion o ran darparu gwasanaethau addysg. Fe wnaeth adroddiad arolygu hynod feirniadol gan Estyn ar Ysgol Gatholig Crist y Gair, ysgol pob oed wirfoddol a gynorthwyir yn y sir, a arweiniodd at roi’r ysgol dan fesurau arbennig, ysgogi’r Pwyllgor i archwilio’r hyn a arweiniodd at roi’r ysgol mewn mesurau arbennig a’r camau sy’n cael eu cymryd gan bawb sy’n ymwneud â’r ysgol i fynd i’r afael â’r argymhellion a wnaed gan Estyn. Yn ystod cyfarfod a fynychwyd gan gynrychiolwyr o’r Esgobaeth Gatholig, y tîm arwain ysgolion dros dro newydd, staff Gwasanaeth Addysg yr awdurdod lleol a swyddogion GwE, archwiliodd y Pwyllgor yn fanwl materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol ers iddi gael ei sefydlu nes iddi gael ei rhoi o dan fesurau arbennig, ynghyd â’r ymateb i’r argymhellion ar gyfer gwella a wnaed gan Estyn a’r cynlluniau arfaethedig ar gyfer adferiad a gwelliant. Ar ôl cael sicrwydd bod camau angenrheidiol a phriodol yn cael eu cymryd i gefnogi'r ysgol i gyflawni gwelliannau parhaol, cytunodd y Pwyllgor i barhau i fonitro'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau gweithredu gyda'r bwriad o sicrhau gwelliannau cynaliadwy hirdymor.

## Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Sefydlwyd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych gan y ddau awdurdod yn ystod tymor y cynghorau blaenorol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol o graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys 16 aelod, 8 yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac 8 yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych. Mae cynrychiolaeth pob Cyngor ar y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol eu Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn nodi y bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn newid bob dwy flynedd rhwng aelodau etholedig cynghorau Sir Ddinbych a Sir Conwy bob yn ail. Yn dibynnu ar dro pa Gyngor yw hi i Gadeirio'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, bydd yr Is-Gadeirydd yn cael ei benodi o blith cynrychiolwyr y Cyngor eraill ar y pwyllgor. 2022/23 oedd ail flwyddyn tro Sir Ddinbych i gadeirio'r Cyd-bwyllgor ac etholwyd y Cynghorydd Gareth Sandilands yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Cheryl Carlisle o Gonwy yn Is-Gadeirydd.

Yn debyg i'r holl bwyllgorau eraill, roedd blwyddyn 2022/23 yn cynnwys cyfnod o hyfforddiant a thrawsnewid ar gyfer y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, cyn parhau â'r gwaith a ddechreuwyd gan y pwyllgor a'i ragflaenodd. Yn unol â'i gylch gorchwyl, ystyriodd y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu **Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2021/22.** Ar ddiwedd ei ystyriaeth, roedd yn fodlon bod y Bwrdd wedi cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas ag adrodd ar ei weithgareddau a'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni ei Gynllun Llesiant 2017 i 2022.

Tra bod y gwaith o gyflawni un Cynllun Llesiant yn cyrraedd ei benllanw, roedd y gwaith paratoi i ddatblygu ei Gynllun olynol wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser. Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y llynedd, roedd y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi archwilio'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Asesiad Llesiant newydd, dogfen allweddol sydd ei hangen i gefnogi datblygiad y Cynllun Llesiant newydd. Yn ogystal â'r gofyniad iddo ymgynghori â'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr Asesiad Llesiant mae hefyd yn

ofynnol i'r BGC ymgynghori â'r Cyd-bwyllgor ar ei Gynllun Llesiant drafft, ac unrhyw ddiwygiadau y mae'n bwriadu eu gwneud iddo.  Felly, yn ystod 2022/23 cyflwynwyd **Cynllun Llesiant drafft y BGC ar gyfer y cyfnod 2023/2028** i'r Cyd-bwyllgor i'w archwilio cyn ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.  Wrth gyflawni ei rôl statudol fel ymgynghorai ar y Cynllun Llesiant, archwiliodd y Cydbwyllgor y Cynllun drafft yn fanwl cyn cymeradwyo ei bedair thema allweddol, sef:

- Lles
- Economi
- Cydraddoldeb
- Tai

a ddylai gefnogi ffocws y Cynllun o wneud Conwy a Sir Ddinbych yn lle mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd.  Mae'r holl themâu hyn ac amcan cyffredinol y Cynllun Llesiant yn asio ac yn ategu Cynllun Corfforaethol pob Cyngor ei hun.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod bydd y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn canolbwyntio ei waith ar archwilio sut mae'r BGC yn rheoli risgiau yn ogystal â'i gynnydd gyda chamau cychwynnol gweithredu a chyflawni'r Cynllun Llesiant.

**Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**



Y Cynghorydd Gareth Sandilands **(Cadeirydd)**



Y Cynghorydd Cheryl Carlisle **(Is–gadeirydd)**

**Aelodaeth**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

- Y Cynghorydd Cheryl Carlisle (Is–gadeirydd)
- Y Cynghorydd David Gerard Carr
- Y Cynghorydd Bernice McLoughlin
- Y Cynghorydd Angie O`Grady
- Y Cynghorydd Stephen Anthony Price
- Y Cynghorydd Kay Redhead
- Y Cynghorydd Austin Roberts
- Y Cynghorydd John Roberts

**Cyngor Sir Ddinbych**

- Y Cynghorydd Joan Butterfield
- Y Cynghorydd Kelly Clewett
- Y Cynghorydd Pauline Edwards
- Y Cynghorydd Alan Hughes
- Y Cynghorydd Paul Keddie
- Y Cynghorydd Terry Mendies
- Y Cynghorydd Gareth Sandilands (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd Elfed Williams

Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi at wybodaeth am y Cyd-bwyllgor, ei agendâu a'i adroddiadau ar wefan y Cyngor

# Ceisiadau Craffu gan drigolion

Ers nifer o flynyddoedd mae pwyllgorau craffu Sir Ddinbych wedi gweithredu dull sy'n galluogi trigolion i dynnu sylw Craffu at faterion sy'n peri pryder.   Caiff hyn ei hwyluso drwy lenwi ffurflen gais am Graffu, sydd ar gael ar wefan, y Cyngor neu gan y Cydlynydd Craffu. Caiff ffurflenni wedi'u cwblhau eu cyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, yn yr un ffordd â cheisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr, swyddogion neu sefydliadau eraill, i'w hystyried ac i benderfynu a yw'r pwnc yn addas i'w archwilio gan un o'r Pwyllgorau Craffu, neu a fyddai'n fwy buddiol pe bai'r mater yn cael ei ystyried gan fforwm arall.

## Sut gall trigolion gymryd rhan yn y broses graffu?

### A fyddech chi'n hoffi i'r pwyllgorau craffu edrych ar fater penodol?

Gallwch godi mater i'w ystyried gan un o bwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych drwy lenwi'r Ffurflen Gais Craffu (drosodd) neu drwy lawrlwytho'r ffurflen o wefan y Cyngor a'i chyflwyno dros e-bost.   Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn cyfarfod yn achlysurol i benderfynu sut i ddyrannu gwaith y pwyllgorau craffu a byddant yn ystyried a ddylai unrhyw fater gael ei ystyried yn fanwl gan un o'r pwyllgorau, neu a ddylid gweithredu mewn ffordd arall.  Gall hyn amrywio o gyfeirio mater i'r gwasanaeth sy'n gyfrifol, i graffu'n llawn ar y mater gan un o'r pwyllgorau craffu, neu hyd yn oed sefydlu 'grŵp tasg a gorffen' arbenigol i archwilio ac adrodd ar fater penodol.

### A fyddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod pwyllgor craffu?

Mae cyfarfodydd pwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych ar agor i'r cyhoedd fel arfer, ac mae trigolion Sir Ddinbych a'r cyhoedd yn cael eu hannog i fynychu neu wylio'r gweddarllediad ar wefan y Cyngor.  Mae rhestr o gyfarfodydd pwyllgorau craffu'r dyfodol a'r materion i'w trafod ar gael ar y dudalen 'Craffu' ar wefan y Cyngor.

Os hoffech chi gymryd rhan yn y drafodaeth ar fater penodol bydd angen i chi ofyn am ganiatâd Cadeirydd y pwyllgor (manylion pellach dros y dudalen).

Yn achlysurol bydd rhai eitemau sy'n cael eu trafod gan bwyllgor yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol na ellir ei thrafod yn y fforwm cyhoeddus arferol. Bydd unrhyw eitemau o'r fath (y cyfeirir atynt fel 'Rhan Dau (II)') wedi'u nodi'n glir pan fydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cyhoeddi, a bydd Cadeirydd y pwyllgor sy'n trafod eitem 'Rhan II' yn ei gwneud hi'n glir y dylai'r cyfarfod barhau heb bresenoldeb y wasg a'r cyhoedd er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

## A fyddech chi'n hoffi siarad mewn pwyllgor ar fater sy'n cael ei drafod?

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd pwyllgorau craffu, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy gyswllt fideo, ond bydd yn rhaid gofyn am ganiatâd y Cadeirydd os ydynt am siarad neu wneud sylwadau mewn cyfarfod pwyllgor. Os hoffech chi gyflwyno tystiolaeth gerbron pwyllgor, neu annerch aelodau ar sail eich profiad mewn perthynas â phwnc dan sylw, cysylltwch â'r Cydlynydd Craffu ymlaen llaw er mwyn trefnu hyn a dosbarthu unrhyw waith papur i aelodau'r pwyllgor.

O bryd i'w gilydd efallai y bydd pwyllgorau craffu am 'gyfethol' unigolyn sydd â phrofiad neu arbenigedd penodol i ddod yn aelod dros dro o'r pwyllgor neu ofyn iddo gyfrannu at ymchwiliad fel tyst arbenigol.

## Cael y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau pwyllgorau craffu Sir Ddinbych

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei drafod yng nghyfarfod pob pwyllgor craffu, yn ogystal ag unrhyw gyfarfod cyhoeddus arall y Cyngor, drwy ymweld â'r dudalen 'cyfarfodydd' ar wefan y Cyngor. Mae 'rhaglen waith' ddiweddaraf pob un o'r pwyllgorau craffu ar gael, ynghyd â'r papurau perthnasol ar gyfer pob cyfarfod, a bydd yr agenda sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer pob cyfarfod ar gael 5 - 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod fel arfer.

Mae cofnodion y cyfarfodydd craffu blaenorol a chofnod o'r argymhellion hefyd ar gael ar wefan y Cyngor, yn ogystal â'r recordiadau o gyfarfodydd craffu diweddar.

Mae rhagor o gyngor neu wybodaeth ar gael drwy gysylltu â'r Cydlynwyr Craffu, Karen Evans ar karen.a.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712575) neu Rhian Evans ar

rhian.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712554), neu drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad e-bost cyffredinol canlynol: democrataidd@sirddinbych.gov.uk .

## Ffurflen gais craffu

A oes unrhyw fater yr hoffech i'r pwyllgorau craffu gael golwg arno?

Rhowch ddisgrifiad byr o'r pwnc yr hoffech i un o'r Pwyllgorau Craffu ei ystyried gan nodi pam rydych yn credu y dylai gael ei ystyried

A fyddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu? HOFFWN / NA HOFFWN

Byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu rhoi'r manylion isod i ni er mwyn i ni allu ymateb i'ch cais

| |
|---|
| Eich enw:<br><br>Cyfeiriad:<br><br><br><br><br>Cod Post:<br><br><br>E-bost:<br><br>Rhif ffôn: |

Dychwelwch y ffurflen hon i:

Cydlynwyr Craffu
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ
neu e-bostiwch y ffurflen at democrataidd@sirddinbych.gov.uk